Teyrnged i'r diweddar Barchedig E.J. Williams

Fe fuodd un yn ddigon rhyfygus â dweud wrthyf, pan ddes i'n weinidog i'r bröydd hyn, i fod yn wyliadwrus o hwn a hon, gan awgrymu y bydde'n ddoethach i mi eu cadw led braich, fel petai; ond dyna sy'n rhyfedd - yr union bobol hynny y dwedwyd wrthyf i fod yn wyliadwrus ohonynt oedd y bobl a fu, ac sy'n parhau i fod, y mwyaf teyrngar a chefnogol.

'Watsiwch chi E.J.' medde'r brawd, mewn ysbryd negyddol. Clyw gyfaill, gallaf ddweud yn gwbl ddiffuant taw fe o'dd un o'r goreuon. Fe'i gwelais yn gyfaill agos, yn driw a theyrngar ac yn hynod werthfawrogol.

Ie 'watsiwch chi E.J.'. Fe ges i, a lawer un arall gyda mi, y fraint o watsio E.J. yn yr ystyr gadarnhaol, ac fe welwyd yn ei fywyd rinweddau gwerthfawr ac esiampl gymeradwy, a buom ar ein hennill o'i watsio ac o efelychu ei esiampl a'i safon.

Ma' Tegla yn cyfeirio yn un o'i gyfrole at ddefnydd y gair 'claeru' ac yn esbonio'i ystyr drwy dynnu darlun o berson yn rhwbio ysgwydd ei got yn erbyn wal galch, ac ôl y calch i'w weld ar y dilledyn, ac yn dweud wedyn fod ambell i berthynas fel calch, yn gadael ei ôl ar ein bywydau ni.

Ma' 'na lawer ohonom, mae'n siŵr, yn ymwybodol y prynhawn 'ma o'r fraint a gawsom o glaeru yn E.J. a bod ôl y gyfathrach wedi gadael ei farc ar ein bywydau ni.

Fe soniodd wrthyf fwy nag unwaith am y bore Sul hwnnw y gwelodd e ole ddydd gyntaf ar lofft tŷ'r Felin yn Swyddffynnon. Ro'dd 'na ysgol Sul ym Methel, y capel bach i fyny'r ffordd y bore hwnnw, a rhywun wedi rhedeg i fyny â'r newydd fod Mary y Felin wedi geni mab. Dai, tad Meurig, oedd hwnnw, ond cyn diwedd yr ysgol Sul fe dda'th newydd eto fod efeilliaid wedi cyrraedd y Felin y bore hwnnw, ac mae E.J. oedd yr ail.

Bu dylanwad ei gartref a'i gynefin yn fawr arno, a chymeriadau'r fro yn rhai y bu'n ddyledus iddynt am ei osod ar ben ffordd. Yn eu plith roedd Mary Ifans, ei fodryb, neu Bodo Mari fel y cyfeiria ef ati, 'yr anwylaf o wragedd y pentref' meddai E.J. amdani yn ei erthygl yn y gyfrol *Namyn Bugail*. Ei weinidog, Y Parchg. T.R. Morgan, oedd ei arwr mawr, ac ef, ynghyd â Tomos Dafis y gof a rannodd iddo trwy eu dysg a'u harweiniad waddol ysbrydol coeth nes cyfeirio ei gamre yn ŵr ifanc i gyfeiriad y weinidogaeth.

Wedi cyfnod yng ngholeg Caerdydd ordeiniwyd ef yn weinidog i Iesu Grist yn 1929 yn Noddfa, Ynys-y-bwl, a siaradai yn amal am wres y croeso a gafodd yno ac am amynedd y saint ac yntau ym maes cyntaf ei weinidogaeth.

I'r Tabernacl Maesteg wedyn yn 1937 ac aros yno am bedair blynedd, cyn troi ei olygon i Sir Benfro a derbyn galwad yn 1941 i'r Felinganol.

Roedd rhin a rhamant y llecyn hwnnw yn un a drysorai yn fawr, a'r awyrgylch mewn oedfa gymun yn gyfareddol. I Dre-fach Felindre wedyn yn 1953, ac y mae'r eglwys honno fel mae'n digwydd yn dathlu dau canmlwyddiant yr achos y Sul nesaf, a gweinidogaeth y

Parchg. E.J. Williams yn loyw ymhlith cofnod y blynyddoedd hynny. Yn ôl eilwaith i Sir Benfro yn 1957 a threulio naw mlynedd egniol ym Methlehem, Trefdraeth.

Rhwng 1966 a 1972 penodwyd ef yn Gynrychiolydd Cymru o Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr. Tymor gweithgar a llwyddiannus oedd hwn mewn gwaith a oedd yn agos iawn at ei galon. Ac yna yn hydre' bywyd, dychwelodd i gynefin ei briod Eirlys i fod yn weinidog ar eglwysi y bu ei dad yng nghyfraith y Parchg. Henry Evans yn gweinidogaethu ynddynt, sef Horeb Penrhyn-coch a Chwmsymlog, a phrofwyd yma eto egni'r tîm unigryw wrth iddo ef a'i briod roi o'u orau.

Nid yw gofod tudalen yn caniatáu lle ond i gofnodi'r daith. Fe ellid bod wedi manylu ar bob un o'r meysydd hyn, ar afiaith y pregethu a chysondeb y fugeiliaeth, am y ddawn a'r diddordebau. Digon yw dweud y bu'r profiadau a rannwyd a'r gofal a estynnwyd wrth iddo fynd i mewn ac allan ymhlith ei bobl, yn adeiladol a gwerthfawr.

Trwy gydol blynyddoedd ei weinidogaeth llafuriodd yn egniol a diwyd ac ymhob un maes ma 'na bobl sydd yn para i'w gofio, ac yn diolch am gael bod o dan ei weinidogaeth, ac wedi elwa o'r arlwy a estynnodd. Ac ma 'na amryw yma y prynhawn 'ma sy'n ddyledus iddo fe a'i briod Eirlys am gynifer o gymwynasau a chyfarwyddyd.

Ac rwy'n synhwyro rywsut fod gan nifer ohonom sy'n bresennol yn ei arwyl yn Horeb le i ddiolch, a bod yna atgofion unigryw a phenodol gennym o E.J. neu Non fel y cyfeiriwyd ato gan lawer. Mae'r atgofion hynny yn rhai cysegredig bellach, ac ar brynhawn fel hwn fe lifant yn ôl a dwyn inni foddhad ac ysgogi ynom ddiolch am a gafwyd ac am yr hyn a brofwyd.

Aeth dros chwarter canrif heibio ers i mi gyfarfod E.J. am y waith gyntaf, ac mae nhw'n dweud bod argraffiadau cyntaf yn rhai pwysig, on'd yn nhw. Cael fy hunan yn ddwy ar bymtheg oed mewn cynhadledd genhadol yn y Barri; nabod neb, ond dyma law yn cydio yn fy mraich, 'Odych chi ar goll? Dewch chi gyda fi. Beth yw'ch enw chi? O ble chi'n dod?' Sgwrsio am hyn a'r llall wrth gerdded ar hyd y coridor nes cyrraedd y neuadd ymgynnull a chael fy ngosod ar ben ffordd. Pwy oedd y cymwynaswr hael? Wel E.J., ac yn y gynhadledd honno y gwnes i gyfarfod â'i briod hoff, Eirlys, a synhwyro bryd hynny afiaith a chefnogaeth y ddeuddyn yma, a dyna oedd dechre cyfeillgarwch a barodd ac a datblygodd. A phan ddes i'n olynydd iddo i'r Penrhyn a'i gael yn aelod ym Methel fe ledodd yr adnabyddiaeth.

Colled enfawr oedd colli'i briod Eirlys wyth mlynedd yn ôl, a rywsut do'dd pethe ddim 'run peth wedyn. Fe ddrylliwyd y tîm, ac er y gofal ar aelwyd a chartref ac ysbyty, roedd yna rhyw wacter amlwg yn ei fywyd, a gwelwyd arwyddion o lesgedd ac afiechyd yn ei nychu ac yn llesteirio'r egni.

A phan dda'th y gwyll i'r cof yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn a dileu'r cofio, fe arhosodd rhyw bethe, on'd o? Ac yn ddieithriad, pan fyddwn yn galw heibio i'w weld yn y cartref ym Mlaenpennal, nôl i Swyddffynnon y bydde'r sgwrs yn mynd, nôl i fore oes, nôl i blith teulu a chydnabod, i ail-flasu cyfaredd dechre'r daith. Ac ar fur ei 'stafell roedd 'na dri darlun: 'Bodo Mari', Thomas Davies y go', ac Eirlys.

Ac o gylch y tri yna y pwythwyd edafedd brau y cof yn ystod y misoedd diwethaf hyn.

Ro'dd popeth arall wedi mynd, ac ro'dd 'na dristwch yn hynny, ond ro'dd y rhain yn aros a dylanwad y tri yn amlwg yn amhrisiadwy ar ei fywyd ef. Ac o'r tri yma, mae'n siwr, yr etifeddodd y gwaddol a'i cadwodd yn siriol a bonheddig hyd y diwedd, a'r gwerthoedd ysbrydol a gafwyd yn eu bywyd hwy yn amlwg, amlwg, yn ei fywyd ef.

Ac rwy'n synhwyro rywsut fod yna ail-gyfarfod melys wedi bod y tu hwnt i'r llen, a rhyw shiglo llaw brwd eithriadol, a chofleidio clos, wedi digwydd, ac ynte wrth ei fodd, mae'n siwr, o'u cael ynghyd ac ynte bellach yn eu plith.

Ac i ni sy'n dal i rodio o'r tu yma i'r llen
Yn profi grym ac ing y golled lem,
Y chwithdod dwys a'r hiraeth sydd
Wrth ddwyn i gof ryw atgof hen
Am ddyddiau gynt a bwrlwm s'lawer dydd
Ac ynte yn ei afiaith a'i athrylith byw
Ym meithrin dawn yn gaboledig wiw;
Ein dyled fawr, mynegwn ac un llef
A'n diolch rhown i Dduw am ga'l ei fenthyg ef

Peter M. Thomas

Traddodwyd yn yr angladd bnawn Gwener 3 Medi yn Horeb, Penrhyn-coch.

Cyhoeddwyd yn *y Tincer* rhif 161 (Medi 1993) t.20